

13. Ddwywaith Adeg y Nadolig

CYMERIADAU

[Yn nhrefn eu hymddangosiad]

- GWENAN – merch ifanc tua 10 oed
- ANN – merch tua 7 oed
- DAD
- SEIMON – gŵr Ruth
- MAM
- RHYS – bachgen tua 12 oed
- RUTH
- MAIR – merch Seimon a Ruth, tua 7 oed

GOLYGFA 1

Ystafell fyw mewn bwthyn. Mae MAM yn eistedd yn gwau a'r plant yn darllen.

GWENAN: Faint o ddyddiau sydd tan Dolig?

MAM: Mae'r calendr ar y wal – 'drycha dy hun.

ANN: Iawn. Pa ddiwrnod ydy hi heddiw?

RHYS: Tachwedd dau ddeg dau, a mae 'mhen-blwydd i fory, rhag ofn dy fod wedi anghofio!

GWENAN: [Yn cellwair] O diar, ydy hefyd, ac mae'r siopa 'di cau. Paid â phoeni, gei di rywbeth gen i flwyddyn nesa!

RHYS: [Taflu clustog ati] Cnaf!

ANN: Tri deg tri o ddyddiau sydd tan Dolig! Tybed be gawn ni Dolig yma? Dillad newydd gawson ni i gyd llynedd yntê? Mae pethau'n brin iawn 'leni a'r cymdogion 'ma'n codi helynt eto! Wir, dwi'n poeni braidd amdanon ni i gyd.

GWENAN: Be, Mam? Be sy'n bod?

MAM: Rwy'ti'n gwybod Rhys, fe ddeudodd dy dad wrthat ti neithiwr. Deud ti wrth Gwenan ac Ann – fedra i ddim!

RHYS: [Gan symud ar draws yr ystafell]

Dewch yma chi'ch dwy i chi gael gwybod be sy'n bod.

[Pawb at ei gilydd]

Fel rydach chi'n gwybod, rydan ni'n byw wrth ymyl ffin dwy wlad, ac mae'r ochr arall wedi bod yn ein bygwth ers tro. Ond, rŵan, mae 'na sôn eu bod yn ffurfio byddin, ac ar ôl iddyn nhw gasglu digon o filwyr, fe fyddan nhw'n dod yma ac yn ein gyrru ni o'r wlad a meddiannu'n tir!

ANN: Fedran nhw ddim neud hynny! Ein tir ni ydy o, rydan ni'n byw yma. Bydd rhaid i ni ymladd!

GWENAN: Be mae Dad yn 'i ddeud, Rhys?

RHYS: Tasa gen Dad ddim teulu, fe fyddai'n aros i ymladd ond am ei fod o'n poeni am ein diogelwch, mae'n deud y bydd rhaid i ni ddianc o'r wlad.

ANN: [*Yn gyffrous*] Yna, fe fyddwn ni'n ffoaduriaid!

RHYS: [*Yn ddifrifol*] Byddwn, Ann, ffoaduriaid.

[*Yna wrth GWENAN*]

Efallai na fydd unrhyw beth yn digwydd – cod dy galon Gwenan fach!

GWENAN: Mae'n ddifrifol yn tydi? Ond fydd rhaid i ni drïo peidio â phoeni gormod. Wn i, be am ofyn i Mam ddeud hanes y Dolig wrthan ni unwaith eto. Bydd yn help i ni anghofio – ac yn help i Mam hefyd. Mae'n edrych yn bryderus.

ANN: Iawn, Mam, wnewch chi ddarllen i ni o'r llyfr gwerthfawr 'ma? Darllenwch hanes y Nadolig cyntaf.

GWENAN A

RHYS: Ie, Mam, plis gawn ni stori?

MAM: Iawn, blant. Estynna'r llyfr 'na Rhys, a bydd yn ofalus. Faswn i wrth fy modd taswn i'n gallu'ch anfon chi i'r ysgol i chi gael dysgu darllen eich hunain.

ANN: [*Gan gipio'r Beibl oddi ar RHYS*]

Ond dwi'n gallu darllen. Fe ddysgodd Dad fi! Gwrandewch. Yn y dech-re-uad y cr-e ...odd Duw...

MAM: Dyna ddigon, Ann! Paid â gadael i mi dy weld ti'n cam-drin y Beibl 'ma eto! Dyma'r unig beth gwerthfawr sydd gynnnon ni a dwi'n bwriadu edrych ar ei ôl. Allwn ni ddim fforddio prynu un arall.

ANN: [*Wedi sobri*] Mae'n ddrwg gen i, Mam.

MAM: Iawn, Ann.

[*Mae MAM yn eistedd ar gadair a'r plant o'i hamgylch*]

Rŵan 'ta, ble gawn ni ddechrau?

RHYS: Be am ddechrau pan mae'r angel yn dod at Mair?

ANN: [*Gan neidio ar ei thraed*] Ie, dwi'n hoffi lle mae'r angel yn dod i mewn ac yn gneud i Mair neidio.

[*Yn neidio o gwmpas*] "Henffych, Mair ..."

MAM: Ann! Un gair arall a fydd 'na ddim stori.

RHYS: Ann, 'stedda i lawr a chau dy geg!

[*ANN yn eistedd gan bwdu*]

MAM: [*Darllen – Luc 1:26–33*]

[*Wrth iddi agosáu at ddiwedd y darlleniad, daw DAD i mewn*]

DAD: Lisabeth, tyrd, does dim amser i'w golli, mae 'na fyddin o ddynion rhyw filltir o'r ffin. Maen nhw'n dod ffordd hyn. Casgla 'chydig o bethau at ei gilydd. Blant – gwisgwch eich cotiau cynnes, rhaid i ni fynd ar unwaith!

RHYS: Ydy hyn yn ddifrifol, Dad?

DAD: Ydy, mae gen i ofn, Rhys. Mae'r fyddin yn bygwth dinistrio pawb a phopeth. Mae'r diafol ynddyn nhw – all ddim byd eu rhwystro nhw.

GWENAN: [*Wrth helpu MAM i wisgo siôl, mae'n sylwi ar focs yn llaw ANN*]

Ann, be sy gen ti yn y bocs 'na? Fedri di ddim cario hwnna o gwmpas!

ANN: Smwt sydd yna. Fedra i 'mo'i adael o!

DAD: [*Gan roi ei fraich o amgylch ANN*]

Ann fach, mae'n ddrwg gen i ond allwn ni ddim mynd â'r gath efo ni. Fydd rhaid iddi aros ar ôl – fe fyddwn ni'n teithio trwy wlad arw a bydd angen dy holl nerth arnat ti i gerdded, heb sôn am gario dim ychwanegol. Tyrd â hi yma, fe gaiff fynd allan i'r ardd. Fydd hi'n iawn yn fanno!

[*Mae'n cymryd y bocs ac yn mynd ag ef allan*]

MAM: Cod dy galon, Ann. Rŵan ta blant, oes gennych chi i gyd rywbeth cynnes amdanoch? Mae Rhys wedi clymu un neu ddau o bethau'n fwndeli i chi. Dyma un peth y mae'n rhaid i ni fynd gyda ni.

[*Gan godi'r Beibl*]

Gofala di am hwn, Rhys. Dwi ddim eisiau ei golli.

RHYS: Iawn, Mam.

DAD: [Wrth frysio i mewn]

Brysiwch bawb, mae'r fyddin yn agosáu. Dilynwch fi ar draws y caeau.

[Mae DAD a'r plant yn brysio allan]

MAM: [Yn cael cipolwg olaf ar yr ystafell]

Doedd o ddim yn llawer o gartref ond tybed a wela i o fyth eto?

[Allan yn sydyn wrth i'r llenni gau]

GOLYGFA 2

Wrth ymyl y ffordd. Mae MAM yn eistedd ar graig yn siarad â RHYS ac mae'r gweddill gerllaw yn chwarae â cherrig. Daw RUTH, SEIMON a MAIR i mewn.

ANN: Mam, dacw Modryb Ruth. Modryb Ruth! Mair!

MAM: Helo Ruth, Seimon. Rydych chi hefyd wedi gorfod gadael eich cartrefi. Dewch i eistedd fan'ma am 'chydig. Rydan ni wedi teithio'n bell.

RUTH: Diolch, Lisabeth. [Gan eistedd]

'Stedda yma efo ni am 'chydig, Seimon.

SEIMON: Na Ruth, dwi am fynd ymlaen i'r pentref nesa. Efallai fydd rhywun yno all roi llety i ni.

[Mynd allan]

MAM: [Wrth MAIR] Dos i chwarae efo'r lleill, Mair. Gofala am Mair, Gwenan, a pheidiwch â mynd yn rhy bell.

GWENAN: Iawn, Mam.

[Mae'n gafael yn llaw MAIR ac yn cerdded i ffwrdd]

RUTH: Mae'n beth da fod y plant yn medru chwerthin a chael hwyl. Mae gen i ofn ein bod ni i gyd yn wynebu amser caled iawn. Tybed a gaiff Seimon lety i ni?

MAM: Gobeithio wir. Mae fy ngŵr wedi mynd ers dwy awr. Mae pob man yr un fath. Does gan neb le i ni neu dydyn nhw ddim eisiau'n helpu ni! Ddoe, disgynnodd Ann a brifo. Dyma fi'n mynd i un o'r tai gerllaw a gofyn am 'chydig o ddŵr i olchi ei phen-glin, a dyma nhw'n cau'r drws yn fy wyneb i! Sut all pobl fod mor galed?

[Yng nghanol y sgwrs, mae DAD yn cerdded i mewn]

- DAD: Helô Ruth. Mae'n ddrwg gen i deulu bach, ond mae pob man yn llawn. Noson arall yn yr awyr agored fydd hi eto.
- MAM: Paid â phoeni, rwyd ti 'di gneud dy orau. Tyrd i eistedd i siarad efo Ruth, fe a' i i nôl y plant – mae'n nosi a dwi ddim isio iddyn nhw grwydro'n rhy bell. [*Mynd allan*]
- RUTH: Mae gen ti wraig arbennig. Mae'n esiampl dda i'r gweddill ohonon ni gyda'i llais siriol.
- DAD: Ydy, ond dwi'n poeni amdani. Tydi hi ddim mor gry â hynny, a tydi'r holl deithio 'ma, a chysgu yn yr awyr agored oer, ddim lles iddi.
- [*Daw SEIMON i mewn yn ystod y sgwrs*]
- RUTH: Unrhyw lwc, Seimon?
- SEIMON: Na, dim lle yn unman. Allan yn yr awyr agored i ninnau heno hefyd, Ruth.
- MAM: Os glosiwn ni i gyd at ein gilydd, fe ddylen ni gadw'n gynnes.
- RHYS: Mam, er nad ydan ni adref, wnewch chi ddarllen stori o'r Beibl i ni? Mae Mair yn deud nad ydy hi wedi clywed hanes o'r Beibl o'r blaen.
- RUTH: Ein bai ni ydy hynny. Fedrwn ni ddim fforddio Beibl, a tydi Seimon na minnau'n gallu darllen.
- MAM: O'r gorau. Pawb yn barod? Cyn i ni orfod gadael ein cartref, cychwynnais ddarllen hanes y Nadolig i chi, felly fe af ymlaen â'r hanes ...
- DARLLENIAD: Luc 2:1, 4, 5-7.
- DAD: [*Gan sefyll i un ochr a gwyllo'i deulu'n paratoi i gysgu*]
- ... am nad oedd iddynt hwy le yn y llety.
- [*Llenni*]

GOLYGFA 3

Wrth ymyl y ffordd yn y bore. Y plant a'r ddwy fam yn cysgu. Mae'r tadau wedi mynd.

ANN: [*Eistedd i fyny a rhwbio'i llygaid*]

Mam, dwi bron â llwgu.

[*Plygu drosodd a'i hysgwyd*]

Mam, dwi eisiau bwyd!

MAM: [Yn deffro]
Be sy'n bod, Ann? Pam wyt ti wedi fy neffro i?

ANN: Dwi'n llwgu, Mam, mae mol i'n gneud sŵn.

MAM: Mae'n ddrwg gen i cariad, ond rydan ni wedi bwyta'r briwsion olaf. Mae Dad wedi mynd i edrych am rywbeth i ni.
[Mae'n gorwedd yn ôl]

ANN: Bydd rhaid i fi fwyta'r gwair felly!
[Gan godi ei chalon]
Dwi'n gwybod, fe wna i frecwast i'r lleill.
[Meimio tynnu gwair]
Rhys, Gwenan, Mair! Deffrwch, mae brecwast yn barod.

RHYS: [Gan ddeffro] Brecwast. Da iawn. Dwi'n llwgu. Be sydd i frecwast?

GWENAN: Bacwn ac wy gobeithio. Dwi'n llwgu.

ANN: Dyma chi, gwair gwyrdd maethlon.

RHYS: [Gan afael ynddi] Yr hen g'nawes fach!

MAM: Rŵan, chi'ch dau, digon o'r ffraeo 'na! Bydd rhaid i chi gadw'ch egni, does wybod pryd gawn ni bryd o fwyd nesaf.

GWENAN: Be wnawn ni heddiw, Mam? Ydan ni'n mynd i gerdded yn bellach?

MAM: Na, Gwenan, ddim heddiw. Aeth dy dad i chwilio am fwyd i ni'n gynnar bore 'ma, a deud wrthan ni am aros fan hyn. Mae'n deud fod y ffyrdd yn rhy beryglus inni deithio ar ein pen ein hunain. Felly, fe arhoswn ni yma nes y daw o'n ôl.

RHYS: Ydach chi'n meddwl dylwn i fynd ar eu holau i weld a ydyn nhw angen help?

MAM: Na Rhys. Gofynnodd dy dad i ti aros yma. Rydan ni angen dyn i'n hamddiffyn ni rhag dieithriaid.

RHYS: [Yn falch] Fe ddeudodd Dad 'mod i'n ddyn! Glywsoch chi hynna, genod, dwi'n ddyn! Lawr â chi ar eich gliniau!

ANN: [Gan wneud hynny'n watwarus a MAIR yn ei dynwarded]
Henffych ŵr mawr, be ydy dy ddymuniad?

RHYS: Bowlennaid o gawl gyda stêc a thatws i ddilyn!
[Curo'i ddwylo]
Ewch i'w nôl nhw.
[Mae'r ddwy'n meimio nôl y bwyd a'i osod o flaen RHYS]

RUTH: [Yn chwerthin] 'Drycha ar y plant 'cw. Mae'n dda eu gweld nhw mewn hwyliau cystal.

GWENAN: Rhowch y gorau iddi wir, rydach chi'n gneud i mi deimlo'n waeth!

MAM: Pam nad ewch chi â'r bêl i'r cae i chi gael chwarae gemau.

MAIR: O, Modryb Lisabeth, dyna wnaethon ni ddoe! Dwi wedi blino chwarae pêl.
[Saib am rai eiliadau]
Dwi'n gwbod – wnewch chi ddarllen stori arall o'r Beibl os gwelwch yn dda?

MAM: Mae'n ddrwg gen i, Mair, ond fedra i ddim heddiw. Mae gen i rywbeth ar fy llygaid a fedra i ddim gweld i ddarllen.

GWENAN: Be oedd yr hanes nesaf yn y Beibl, Mam?

ANN: Dwi'n gwybod. Dwi'n gwybod. Y bugeiliaid ar y bryniau, ie?

RHYS: Ie, a sut y daeth yr angylion i lawr atyn nhw.

GWENAN: Wrth gwrs. Dwi'n gwbod, mae gen i syniad. Os na all Mam ddarllen y stori i ni, be am ei hactio? Rydan ni yn y lle iawn, allan yn y caeau, a gallwn smalio fod 'na ddefaid yma.

RHYS: Am hwyl! Fe wna i fod yn fugail gyda'r defaid a gallaf ganu tiwn ar y fflwt.
[Mae'n eistedd ac yn esgus chwarae'r fflwt]

ANN: Fi ydy'r angel.
[Mae'n sefyll ac yn codi ei breichiau i fyny]

RHYS: [Yn chwerthin]
Bydd rhaid dychmygu dipyn felly!
[Mae'n osgoi llaw ANN sy'n ceisio ei daro]

MAIR: Ga i fod yn angel hefyd? Fe wna i yr un fath ag Ann.

GWENAN: Iawn 'ta, a ga i fod yn fugail arall efo Rhys. Caiff Mam a Modryb Ruth fod yn gynulleidfa.

MAM: [*Chwerthin*] Iawn blant – unrhyw beth am heddwch! Tyrd Ruth, cawn eistedd yma.

[*Symud i un ochr*]

GWENAN: Gawn ni fenthyg eich siôl chi, Mam – i fod yn glogyn bugail?

MAM: Cewch siŵr, dyma chi.

GWENAN: Diolch yn fawr.

RUTH: Fe gei di fy siôl i hefyd, Gwenan, fel y gall y ddau ohonoch wisgo i fyny.

[*Mae GWENAN a RHYS yn gwisgo eu siôl*]

RHYS: Dwi'n gwbod, Ann, fe gei di wisgo'r gadwyn 'na wnes i o lygaid y dydd ddoe, os ddo i o hyd iddi.

[*Chwilio o gwmpas amdani*]

O, dyma hi. Fe gei di ei gwisgo fel penwisg. Dyma un i ti hefyd, Mair.

MAIR: Diolch.

GWENAN: Iawn angylion? I'r ochr rŵan. Fi ydy Reuben, pwy wyt ti Rhys?

RHYS: Benjamin.

[*Wrth MAM a RUTH*]

Rydan ni'n eistedd gyda'n gilydd yn gofalu am ein defaid.

[*Mae'r ddwy fam yn ysgwyd eu pennau*]

[*Mae RHYS a GWENAN yn eistedd o gwmpas tân ffug*]

Bobl, Reuben, mae hi'n noson oer heno. Dwi'n gobeithio na chawn ni helynt efo'r defaid. Dwi ddim eisiau mynd yn rhy bell oddi wrth y tân.

GWENAN: Rwyd ti'n iawn, Benjamin.

[*Mae'n tynnu'r siôl oddi amdani*]

Dwi ofn rhew, mae'r ddaear yn galed yn barod.

[*Daw ANN a MAIR i mewn*]

ANN: Henffych fugeiliaid. Dwi wedi dod ...

RHYS: Na, ddim eto Ann.

[ANN a MAIR yn mynd allan]

Dyma ti, Reuben, cymer un o fy mrechedanau i, mae'n siŵr dy fod ti bron â llwgu!

GWENAN: [Gyda theimlad]

Llwglyd iawn. Mae dy wraig yn dda am wneud brechedanau.

ANN: [Yn brysio i mewn] Brechedanau? Ddeudodd rhywun rywbeth am fwyd?

RHYS: Paid â bod yn wirion, Ann, actio ydan ni. Gei di wybod pryd i ddod i fewn mewn munud.

[Mae'r ddwy fam yn gwenu oherwydd yr ymyrraeth]

[Mae RHYS a GWENAN yn gorffen bwyta]

GWENAN: Tyrd, Benjamin, awn ni i weld a ydy'r defaid yn iawn.

[Maen nhw'n codi ac yn edrych o gwmpas]

RHYS: Rŵan, Ann. Rŵan!

[Daw ANN a MAIR i mewn. Mae'r bugeiliaid yn syrthio ar eu gliniau]

ANN: Henffych fugeiliaid. Peidiwch ag ofni.

MAIR: Haleliwia! Haleliwia! Hal...

ANN: Taw, Mair, ddim eto! Fugeiliaid – rydan ni wedi dod â newyddion da i chi. Ganwyd baban yn ... yn ...

[Gofyn i MAM]

Yn lle Mam?

MAM: Ym Methlehem.

ANN: Diolch, Mam ... ym Methlehem. Yn y stabl. Ewch yn sydyn ato. Ffarwél fugeiliaid.

[ANN yn mynd, ond mae MAIR yn aros]

MAIR: Haleliwia ...

ANN: [Gafael yn MAIR]

Tyrd, Mair, rydan ni wedi gorffen ein rhan.

[*Maen nhw'n sefyll tu ôl i RHYS a GWENAN*]

GWENAN: Benjamin, glywaist ti'r newyddion da? Daeth ein gwardwr o'r diwedd.

RHYS: Do, gadewch i ni fynd i Fethlehem ar unwaith.

[*Ar ddiwedd y siarad, mae DAD a SEIMON yn brysio i mewn*]

SEIMON: Ruth, Lisabeth. Newyddion da – fe gawson ni fwyd!

RUTH: Bwyd? Yn lle Seimon, yn lle?

SEIMON: Yn y pentref agosaf. Mae 'chydig o bobl wedi dod ynghyd ac wedi agor cegin ffoaduriaid. Dim ond cawl a bara sydd ar gael ond mae'n edrych yn hynod o flasus.

MAM: Gawsoch chi beth?

DAD: Naddo – daethon ni'n syth yn ôl yma. Dewch. Gadewch eich pethau. Mae pobl yn tyrru yno!

[*Maen nhw'n brysio allan gyda DAD a MAM yn dilyn yn araf*]

MAM: Am ryfedd. Roedd y plant yn actio'r hanes am yr angylion yn dod â newyddion da i'r bugeiliaid a dyma chi'n dod â newyddion da i ni. Rhyfedd iawn.

[*Llenni*]

GOLYGFA 4

Ar ochr y ffordd – wythnosau'n ddiweddarach. Plant ar un ochr a'r rhieni ar yr ochr arall.

MAM: Blant. Ydach chi'n gwybod pa ddiwrnod ydy hi heddiw?

MAIR: Dydd Sadwrn.

ANN: Dydd Mercher.

MAM: Na – nid pa ddiwrnod o'r wythnos roeddwn i'n ei feddwl, ond pa ddiwrnod arbennig o'r flwyddyn.

ANN: [*Gan redeg at MAM*] Mam, nid y Nadolig ydy hi, ie?

MAM: Ie – mae'n noswyl y Nadolig.

[*Ychydig yn drist*]

Y diwrnod pan ddylai pawb fod yn eu cartrefi yn paratoi, ac yn cael hwyl, a dyma ni – heb do uwch ein pennau.

RUTH: Paid â bod yn ddigalon, Lisabeth, tydi hyn ddim fel ti – ti ydy'r un fwyaf llawen fel arfer.

MAM: Mae'n ddrwg gen i. Fedra i ddim peidio â meddwl am y Nadoligau hapus rydan ni wedi'u cael o'r blaen. Er nad oedd gynnon ni lawer o arian, roedden ni'n dathlu'r Nadolig mewn modd hapus iawn bob tro.

DAD: [*Symud ymlaen*]

Wel, be sy'n ein hatal ni rhag dathlu yma? Mae gynnon ni do uwch ein pennau, sef yr awyr. Y ddaear ydy'n bwrdd a'n cadeiriau ni. Ann, ysgrifenna di'r gwahoddiadau i'r gwesteion.

[*Mae'n gwneud ystum fawr o ysgrifennu a phawb yn ymuno*]

MAIR: Fedra i ddim darllen fy ngwahoddiad – pryd mae o?

DAD: Rŵan! Pawb i ddod.

[*Mae pawb yn eistedd o amgylch y bwrdd ffug ac yn smalio bwyta*]

Arhoswch funud bawb, does gennych chi ddim bwyd eto. Pawb i gau eu llygaid am funud – dim sbecian. Mair! Llygaid wedi eu cau.

MAIR: Mae'n ddrwg gen i.

DAD: Dyna welliant.

[*Yn mynd allan gyda SEIMON. Daw DAD yn ôl gyntaf gyda bocs o fwyd a'i osod yng nghanol y cylch*]

Dyma chi – Nadolig Llawen.

PLANT: Bwyd!

[*Daw SEIMON i mewn yn cario bocs o fwyd*]

SEIMON: Dyma fy nghyfraniad i. Nadolig Llawen.

MAM: O le ddaeth y bwyd 'ma?

DAD: [*Yn anesmwyth*]

Wel ... 'dach chi'n gweld ... fe ...

GWENAN: [*Wedi ei synnu*]

Dad, wnaethoch chi ddim ei ddwyn, naddo?

MAM: Seimon?

SEIMON: Na, na. Paid ag edrych mor boenus, Ruth. Rydyn ni wedi bod yn cadw ychydig o fwyd bob tro roedden ni'n mynd i geginau'r ffoaduriaid. Doedden ni ddim eisiau i'r Nadolig fynd heibio heb ryw fath o ddathlu. Dyma'n hanrhegion ni i chi.

DAD: Ie, bwyteuwch. Does dim llawer, ond mae 'na ddigon.

RHYS: Dyma afal i ni ei rannu. Rhoddodd hen wraig yn y pentref hwn i mi.
[*Pawb yn bwyta. Mae MAM yn sefyll ychydig oddi wrth y gweddill*]

MAM: A daeth y gwŷr doeth a'u hanrhegion i'w rhannu. Aur, thus a myrr.

MAIR: Dyna ran arall o hanes y Nadolig, yntê Modryb Lisabeth?

MAM: Ie, Mair. Daeth y gwŷr doeth i weld Iesu – teithio llawer o filltiroedd er mwyn dod â'u hanrhegion. Dyma ran olaf hanes y Nadolig. Dwi'n ei weld o'n rhyfedd fod ein hynt a'n helynt ni'n cyd-fynd â'r hanes.
[*Fel mae MAM yn siarad, mae DAD yn cymryd y Beibl oddi wrth RHYS ac yn ei ddarllen*]

DAD: Na, Lisabeth, nid dyma ddiwedd yr hanes. Gwrandewch.

DARLLENIAD: Mathew 2:13–14.

GWENAN: [*Neidio ar ei thraed*]
Mam, os ydy'n bywydau ni'n dilyn yr un patrwm â'r hanes yn y Beibl – ydy o'n golygu fod rhaid i ni ddal i redeg i ffwrdd?

RHYS: [*Gan sefyll*] O na, Mam, ddim am byth.

ANN: [*Mynd at MAM*] Gawn ni fyw yn ein cartref eto yn y dyfodol?

MAM: Blant, peidiwch â phoeni gymaint. Mae Duw yn siŵr o ofalu amdanon ni fel y mae wedi'i wneud hyd yma. Hoffwn i chi ateb un cwestiwn i mi. Be wnaeth y bugeiliaid a'r gwŷr doeth pan ddaethon nhw i weld Iesu?

MAIR: Dod ag anrhegion iddo, yntê!

MAM: Ie, ond be arall wnaethon nhw?
[*Saib*]

RHYS: Ydach chi'n meddwl 'ei addoli', Mam?

MAM: Ydw, Rhys. Cyn i ninnau gysgu, dwi'n meddwl mai dyna ddylen ni ei wneud hefyd. Dowch i ni blygu o flaen Duw a diolch am ei gariad tuag aton ni.

DIWEDD